



# Ysgol Tryfan

Mai 2013

Annwyl Rieni a Disgyblion Blwyddyn 11

## Diwrnod Ymadael Blwyddyn 11 2013

Eleni, fel y gwyddoch, rydym wedi gofyn am bresenoldeb blwyddyn 11 hyd at ddiwedd yr hanner tymor hwn er bod eu harholiadau eisoes wedi cychwyn. Teimlaf fod hyn wedi bod er budd y disgyblion a braf yw gweld cynifer ohonynt yn manteisio i'r eithaf ar y cyfle hwn i adolygu gyda'u hathrawon yma yn Ysgol Tryfan.

Fodd bynnag ddydd Gwener yma, 24/05/13, byddwn yn rhyddhau blwyddyn 11 am y tro olaf, ac ar ôl gwyliau'r hanner tymor bydd disgwyl iddynt ddod i'r ysgol ar gyfer eu harholiadau yn unig. Wedi dweud hyn mae gennym bolisi drws agored a bydd croeso i'r disgyblion wrth reswm droi atom am gefnogaeth a chymorth yn ystod y cyfnod astudio annibynnol ar ôl y Sulgwyn.

Dydd Gwener yma felly fydd eu diwrnod olaf swyddogol ym mlwyddyn 11 a bwriadwn gynnal cyfarfod yn y prynhawn i ddatlu eu cyfnod gyda ni yn Ysgol Tryfan. Bydd cyfle yn ystod y prynhawn yn y Neuadd i edrych yn ôl ac i edrych ymlaen a gwneud hynny yng nghwmni nifer o'u hathrawon. Bydd cyfle yn y Neuadd i dynnu rhai lluniau, i wrando ar rai anerchiadau ac i dderbyn ffolder cyrhaeddiad Ysgol Tryfan 2013. Disgwylwch i ddisgyblion fod mewn gwisg ysgol lawn a glân os am fynychu'r cyfarfod. Golyga hyn felly os yw disgybl yn awyddus i gael cyd-ddisgyblion i lofnodi crys polo fod angen crys wrth gefn ar gyfer hyn.

Wrth gloi felly hoffwn ddiolch i chi am eich cefnogaeth gyson i Ysgol Tryfan, i ddymuno'n dda i'r holl ddisgyblion yng ngweddill eu harholiadau ac i atgoffa pawb fod canlyniadau TGAU eleni ar gael yma yn yr ysgol ar fore Iau Awst 22 2013 o 8.00 y.b. ymlaen.

Yn gywir

Gwyn Tudur  
Pennaeth



Ysgol Tryfan  
Lôn Powys, Bangor, Gwynedd. LL57 2TU  
☎ 01248 352 633 ☎ 01248 361 264  
[pennaeth@tryfan.gwynedd.sch.uk](mailto:pennaeth@tryfan.gwynedd.sch.uk) [www.ysgoltryfan.org](http://www.ysgoltryfan.org)

Pennaeth/Headteacher: Gwyn Tudur

